

## PARRY, JOHN (1835 - 1897), arweinydd rhyfel y degwm o 1886 ymlaen

**Enw:** John Parry

**Dyddiad geni:** 1835

**Dyddiad marw:** 1897

**Rhiant:** Hugh Parry

**Rhyw:** Gwryw

**Galwedigaeth:** arweinydd rhyfel y degwm

**Maes gweithgaredd:** Gwrthryfelwyr; Crefydd

**Awdur:** David Thomas

Ganwyd 24 Gorffennaf 1835, yn Llanarmon-yn-Iâl, mab y Parch. Hugh Parry. Yr oedd yn saer coed, bugail, goruchwyliwr stad, llenor, a bardd, a chanddo lyfrgell nodedig o gyfoethog ac amlochrog (yn L.I.G.C. yn awr). Ysgrifennodd atodiad i *Hanes y Merthyrion* (Thomas Jones, Dinbych), ysgrif ar ' Helynt y Degwm ' (Y *Traethodydd*, 1887), etc. Yr oedd yn aelod o gyngor sir cyntaf sir Ddinbych. Yr oedd yn areithiwr huawdl ac arweinydd doeth, ac anerchodd lawer o gyfarfodydd yng Nghymru a Lloegr ar bwnc y tir. Bu farw 3 Mehefin 1897.

### Awdur

David Thomas, (1880 - 1967)

### Ffynonellau

*Baner ac Amserau Cymru*, 9 Mehefin 1897

*Y Goleuad*, 16 Mehefin 1897

*Notable Welshmen (1700â€“1900)* (1908), 451

*Y Winllan*, Hydref 1922

T. Gwynn Jones, *Cofiant Thomas Gee* (Dinbych 1913) (mynegai)

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733605

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Grannu

Arddull APA

x

Thomas, D., (1953). PARRY, JOHN (1835 - 1897), arweinydd rhyfel y degwm o 1886 ymlaen. Y *Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-PARR-JOH-1835>

Grannu

Prefatrwydd a Chwcis  
Hawlfraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Ysgrifeddiadau  
Llywodraeth Cymru  
Copied by  
Welsh Government